



# Llais Y Derwent

Haf 2013

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr

Pris 25c

## Beth yw'r haf i ni?

**Y**r ydynt yn sefyll ar drothwy'r haf, ond wrth i mi ysgrifennu y geiria hyn ar benwythnos olaf Mis Mai, mae pobl y tywydd yn darogan eira ar ben mynyddoedd yr Alban ac Eryri. Rhyfedd o fyd. Ond dw i'n ffyddiog daw haul ar y bryn, ac yn bendant dwi'n edrych ymlaen at sawl ymweliad i Gymru dros yr haf ac yn bendant at wythnos gyntaf Mis Awst. Mae hi wastad yn braf cael gweld ffrindiau hen a newydd a gobeithio eleni mi fydd ambell un sy'n dysgu'r hen iaith yr ochr yma i Glawdd Offa yn derbyn tystysgrif am basio arholiadau. Mae cymwysterau yn bwysig yn y byd sy ohonon, ond yn fy marn i, mae'r brif wobwr am ddysgu'r iaith yw cymryd rhan yn y 'pethe' a bywyd Cymraeg boed yng Nghymru neu ymhlith y Cymry alltud.



Mae'r DWLC wedi trefnu llond rhaglen unwaith eto ar gyfer 2013-2014. Mi fydd yr arlwy arferol yn parhau sef y cyfarfod wythnosol yn Derby, y gweithdai misol, yr Ysgol Undydd ac ambell cyfarfod cymdeithasol. Mi fydd Elin Merriman yn dod yn ôl i arwain y gweithdai ar ôl ei chyfnod mamolaeth hi gynharach eleni. Croeso yn ôl Elin! Diolch i Glen Mulliner yn Belper mi fydd dosbarthiadau i ddechreuwyr a canolradd yn mynd ymlaen. Diolch hefyd i Allan Child yn Derby am ei waith parhaol yn rheoli'r arian ac i drefnu stafelloedd ar ein cyfer ni efo Tŷ Cwrdd y Crynwyr. Gwirfoddolwyr sy wrth wraidd yr holl weithgareddau yn Swydd Derby a Swydd Nottingham, felly rhaid crybwyll hefyd cyfraniad

gwerthfawr Cymdeithas Cymry Nottingham fel unigolion sy'n cefnogi ein digwyddiadau a hefyd am barhau i drefnu'r Bore Coffi Popeth Yn Gymraeg bob mis. Mi fysai hi'n braf cael gweld mwy o ddysgwyr y canolbarth yn mynd draw i Nottingham ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan y Gymdeithas.

Hoffwn ni glywed mwy ynglŷn â gweithgareddau grwpiau SSIW'r rhanbarth. Mae cyfarfodydd rheolaidd bellach ym Manceinion, Leeds, Solihull, ardal Cannoch a Bradford. Felly beth amdani? Anfonwch wybodaeth i ni am eich ymdrechion a digwyddiadau!

JPS

## Cwrdd â Hen Ffrind

Roedd Watkin a Gladys wedi mynd lan o'r Glyn i Birmingham er mwyn ymweld â'i ferch Gaynor a'i gwr Derek. Roedd y gŵr yn y gwaith pob dydd wrth gwrs ac roedd Watkin yn edrych am bethau diddorol i'w gwneud yn ei absenoldeb Roedd rhai o'i hen ffrindiau wedi'i throedio hi am Birmingham yn ystod y dirwasgiad y gwaith Dur yn y Glyn yn ystod y tridegau. Roedd wedi clywed sibwrdd eu bod wedi dod ymlaen yn dda! Beth am roi tro amdanynt?

Roedd Cliff wedi bod yn gweithio gyda Watkin yn yr hen waith Haearn, ond am fod dim ond ychydig alw erbyn hynny am yr haearn bu rhaid newid trefn - y ddau yn weithwyr da, ac felly rhaid edrych am waith gwahanol i gadw penllinyn ynghyd.

Ar ôl chwilio yn fanwl yn lleol am gyfleusterau gwahanol penderfynodd Watkin gymryd swydd gwerthi 'siwrens gyda chwmni Liverpool Victoria am rhai blynyddoedd. Yn y pen draw dymchwelwyd yr hen Ffatri Haearn ac adeiladwyd un newydd sbon ar yr un sail, yn cynhyrchu nid dim ond haearn a dur ond stripiau dur ac Alcan hefyd - yr un fwyaf yn Ewrop o dan lywodraeth cwmni Richard Thomas a Baldwin a help llaw wrth y llywodraeth hefyd. Roedd hwn yn waith pwysig i ddyfodol ardal y Glyn a hefyd i ganlyniad yr Ail Ryfel Byd, ac ni fu rhaid i Watkin i gofrestri yn y fyddin o herwydd natur y Gwaith! Datblygodd a dringodd Watkin yr ysgol yn y Gwaith, ac erbyn ei ymddeoliad roedd wedi'i ddyrchafu'n Manajer ar y Felin Strip-Ddur, ac yn cael ei anrhydeddu a'r M.B.E. gan y Frenhines am ei gyfraniad i'r Maes Dur yn Ne Cymru.

Bu Cliff yn llai ffodus a bu rhaid iddo dalu ffarwel a'i ardal enedigol, gan fod dim gwaith lleol ar gael ar y pryd. Ac arian yn brin dim amdani ond cerdded yr holl ffordd i Birmingham - dim ond 68 milltir, gobeithiai y byddai'r sgydiau yn para'r daith a'i wadnau a'i sodlau heb erydu allan yn llwyr! 'Roedd Watkin wedi clywed fod Cyril wedi gwneud yn iawn drosto'i hun, ac felly roedd yn awyddus iawn i roi tro amdano. Dechreuodd Cliff gyda whilber ar faes agored nwyddau yn y Bullring, ac yno y byddai pob dydd ac ar hyd y dydd yn gwerthi nwyddau o bob math. Profodd hefyd fod angen ariannu pobl i dalu am y nwyddau. Datblygodd y busnes o whilber i stond ac o stond i siop Yn y diwedd bu mor llwyddiannus hyd iddo godi adeilad *multi storey pum llawr* yn y farchnad a'i henw oedd **S & U** mewn geiriau bras a goleuedig ar ei chop, fel roedd pawb yn ei gweld yn eglur ddydd a nos.

Beth am fynd i gwrdd â Cliff unwaith eto? Pan wahoddwyd ef i fynd i siopa gyda'r marchod, derbyniodd y cynnig ar unwaith - 'tra fo chi yn siopa af i weld Cliff', meddai. Roedd hyn yn sioc i'r ddwy ferch, 'alli did dim jyst mynd i'r siop a gofyn i weld y pennaeth heb gael apwyntiad ymlaen llaw drwy'r ffon, 'mae e'n ddyn prysur yn y busnes a phwysig yn y ddinas', meddent! Ond doedd dim troi'n ôl ar Watkin a'r lleill yn fawr embarasd. Cerwch i siopa fe af fi i'r dderbynfa. Gwahanu bu ar y llawr gwaelod ac aeth Watkin i siarad â'r wraig yn y dderbynfa. 'How can I help you Sir', meddai. 'I'd like to see Cliff Coombes?' ebe fe.

'Do you have an appointment Sir' meddai. 'No' atebodd Watkin "just tell him that Watty Davies is at Reception, and he'll come down'. Mae'n debyg ei bod wedi dweud hyn oblegid mewn rhai eiliadau yr oedd Cliff yno ar ddau yn chwerthin yn braf, ac yna'n mynd i fyny yw swyddfa. 'No interruptions please for the next hour' oedd ei neges i'w ysgrifenyddes!

Fore trannoeth daeth y car mawr i dy ei ferch i gario Watkin a'i fab yng nghyfraith i stadiwm Birmingham City, ac ar ôl gwledd o gino fe welsant y gêm o focs y cyfarwyddwyr.

Dau ddyn cyffredin wedi'i ddyrchafu'n uchel mewn gwahanol feysydd, ar ôl effaith y dirwasgiad, ac eto i gyd heb anghofio ffrwyth ffrindgarwch eu hieuenctid!. Ie wir, 'Gwynt gwael sydd ddim yn rhoi rhyw gynnig da i rywun'.

**Gwynne Davies**



## Dysgu'r Gymraeg ar lein yn Chapel en le Frith

Alison dw i. Dw i'n byw yn Chapel en le Frith yn ardal y 'High Peak' Dw i'n briod a Derek ers 1977, ac mae gen i un ferch, Jane, ac un mab, Russell.


Mae Jane yn gweithio fel nyrs, ac mae Russell yn gweithio am Nandos fel rheolwr. Dw i'n gweithio fel athrawes cerddoriaeth beripatetig - dw i'n dysgu piano a gitâr mewn nifer o ysgolion.

Mae gen i garafán yng Ngogledd Cymru, rhwng Abergele a Llanrwst a llawer o bobl yn yr ardal yn siarad Cymraeg. Felly mi wnes i benderfynu trio dysgu Cymraeg hefyd. Dw i'n defnyddio'r we i ddysgu, er enghraifft - BBC Catchphrase' a 'Say Something in Welsh'.

Pan ddw i yng Nghymru, dw i'n mynd i'r Sadwrn Siarad yn Llansannan. Gawsom ni paned a sgwrs yn y Llew Coch, yn eistedd wrth y tan.

Dw i'n hoffi cerddoriaeth Gymreig, yn enwedig Corau Meibion, a'r Delyn. Dw i'n edrych ymlaen at yr Eisteddfod yn Ninbych mis Awst

**Alison O'Brien**



## Meddwl Am y Gwanwyn

Efallai y bydd rhai ohonoch chi'n edrych ymlaen at y gwanwyn erbyn hyn. Ar ôl y tywydd ofnadwy ym mis Rhagfyr, dw i'n gobeithio y bydd y misoedd o'n blaen ni'n sychach na'r misoedd tu ôl i ni.

O'n i byth yn meddwl am y tymhorau a'u hatyniadau a phroblemau i gyd, ond dw i'n edrych ymlaen at y gwanwyn bellach fel y gwrthwenwyn delfrydol i godi ysbrydion ar ôl y gaeaf. Ydych chi'n meddwl am rywbeth neu rywle yn arbennig pan ddych chi'n meddwl am y gwanwyn? Oes delwedd sy'n cynrychioli'r gwanwyn i chi?

Mae gen i ddelwedd felly sy'n ardeisyf gwres yr haul a golwg y blodau newydd yn y cefn gwlad a'n gerddi ni. Yn y gorffennol, dw i wedi aros ar wersyllfa mewn pentrefan o'r enw Pencelli sy wedi'i lleoli tua dwy filltir i ffwrdd o Aberhonddu. Mae'r llecyn braf 'ma wedi'i leoli rhwng llethrau llyfngrwn y Bannau Brycheiniog a'r Afon Wysg.


Wrth gwrs, mae'r ardal gyfan yn fawredog ac mae 'na ddigonedd o leoedd ble bydd y bryniau a'r awyr iach yn eich ymhyfrydu chi, ond i fi, mae'r gwanwyn wedi ei ddod o hyd i'r coetiroedd wrth Nant Menasgin. Mae'r nant yn dechrau fel edau arian ddi-nod yng Nghwm Oergwm, isod Fan y Big, cyn iddi hi lydanu a llifo i'r Wysg. Mae 'na lwybr ceffyl

cyhoeddus yn y coed sy'n croesi'r nant o'r diwedd isod y ffermdy o Bentwyn. Dyma le arbennig i fi yn ystod y gwanwyn. Dw i'n gwyllo'r dŵr yn dawnsio ymhlith a dros y cerrig a cher-rig crynion ar wely'r nant. Mae'r dŵr ei hun yn cael ei gordo gan wern a dw i'n siŵr y bydd rhai o'r canghennau'n cyffwrdd a'r dŵr ar ôl y dail newydd wedi blaguro.

Er hynny, mae 'na arddangosiad hudol o Flodyn y Gwynt, Suran y Coed a Llygad Ebrill. Mi fedrwch chi glywed y ji-binc a'r titw mawr yn canu, mae'u can nhw'n cyfeilio sŵn y dŵr. Os dych chi'n wylidwrs, mi allech chi weld dringwr bach neu ddelor y cnau. Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd! Mae'n bleser tawel i sefyll ar y bont tra gwranddo ar y dŵr a syllu ar y cyfuniad meddwol o felyn a gwyn. Yn y pellter, mae'r lliwiau 'ma'n dod yn dawch dwys sy'n cipio'ch golwg chi. Dyma le i ymdroi.

Wedyn, dych chi'n dilyn y llwybr, rhwng gwrychoedd draenen wen uchel, mewn pant tywodlyd a charegog. Mi fyddwch chi'n gadael y lle arbennig 'ma, ond mi fedrwch chi ddod yn ôl y flwyddyn nesa. Mae'r gwanwyn yma.

**Martin Coleman**



**Say Something In Welsh  
Become a Welsh speaker - join the  
world's largest class!**

**FIND OUT WHY OVER 15,000  
PEOPLE USE OUR  
AWARD-WINNING COURSE**

You don't need to read or write or do any revision - you just start speaking normally and naturally from the very beginning. But we don't expect you to take our word for it!

Listen to the first lesson right here, right now - either the northern or the southern version - and if you like it, you can access another 25 half-hour lessons for free go to website

[www.saysomethinginwelsh.com](http://www.saysomethinginwelsh.com)



## Dyddiadur y Gaeaf: Alnilam

Wel dyma ni ym mherfeddion y gaeaf; mae'r Nadolig ar ben unwaith eto, mae'r Ystwyll wedi bod ac yr addurniadau i gyd wedi'u cuddio i ffwrdd yn y tafnod. Roedd y tywydd yn fwyn am ychydig o ddyddiau; annisgwyl ar gyfer yr adeg y flwyddyn yma! Ond ar hyn o bryd mae hi'n dywyll ac yn oer ac yn niwlog fel arfer.

Ond hyd yn oed yng nghanol mis Ionawr mae yna ddigon i fwynhau, ac yn enwedig petasech chi'n gwario ychydig o'ch pres am roi peth o fwyd allan! Dyma amser gorau y flwyddyn i weld adar mân yn bwydo yn yr ardd; a gwnewch yn siwr bob tro eich bod chi'n gwybod eu henwau Cymraeg! Dyma chyfle arall i gael hwyl wrth reswm, mae'r enwau yn hyfryd, beth am *Titw Tomos Las* i ddechrau? Am enw rhyfeddol on'd yw e? Ond am rhyw reswm, dw i ddim yn gwybod pam, fy hoff enw adar mân yw *Siani Lwyd*.

Cofiaf fel bachgen yn cerdded adref i'n fferm anghysbell ar nosweithiau rhewlyd oer y gaeaf gyda'r awyr yn glir a heb y lleuad yn tywynnu. Wel am golygfa! Biliynau o sêr yn pefrio yn y ffurfafen a'r *Llwybr Llaethog* yn ymddangos mor amlwg a finnau'n teimlo mor fach fach. Erbyn hyn d'yn ni ddim yn gallu cael y fath wefr, oherwydd llygredd golau wrth gwrs, ond bryd hynny doedd dim llygredd golau, a hefyd yr oedd hi'n adeg yr ail ryfel y byd ac roedd y 'blac-owt' mewn grym!

Perfeddion y gaeaf yw hi nawr ond peidiwch â digalonni. Mis Ionawr yw'r mis gorau i edrych ar y sêr, ac hyd yn oed gyda llygredd golau dych chi'n gallu cael digon o hwyl! Nawr yw'r amser gorau i weld Orion sy'n cytser mwyaf **gwych, ardderchog, gogoneddus, ysblen-**

**nydd, godidog, bendigedig!** Un o'r pleserau mwyaf y gaeaf yw sbio ar y cawr *Orion yr Heliwr*, yn brasgamu dros y ffurfafen liw nos gyda'i gŵn Sirius a Procyon yn tuthio ger ei sodlau.

Ac am enwau hyfryd y sêr! Yr wyf i wrth fy modd gyda'r hen, hen enwau Eifftaidd y sêr, a fy hoff enw o'r cwbl s'yn dod o gwregys Orion. Dyma thair seren enwog dros ben ac enw yr un yn y canol yw *Alnilam*. Mae'r gair yn swnio'n hardd, neu yn hudol hyd yn oed! Ac mae ystyr yr hen air o'r Aifft yn hyfryd; roedd hi'n arfer cyfeirio at y tair seren yng ngwregys Orion fel *Y Llinyn o Berlau*.

Viv Harris

Rhagfyr 2012

## Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

Ydych chi am gymryd rhan mewn Gweithgareddau Cymraeg a Chymreig? Mae'r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby eisiau trefnu Noson Lawen i Ddysgwyr a Chymry Cymraeg Swydd Derby a Swydd Nottingham yn ystod 2013-14. Cysylltwch â Jonathan ar 01773 827513.

Am fanylion pellach ynglŷn â gweithgareddau Cylch Dysgwyr Cymraeg ewch i'n gwefan ni [www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com](http://www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com)

## Bore Coffi

### Popeth yn Gymraeg

Mae aelodau o'r Bore Coffi Popeth yn Gymraeg Nottingham yn cwrdd bob mis mewn ardal gwahanol o'r ddinas.

Am fanylion pellach cysylltwch â Gwynne ar 0115 925 9613

### Cysylltu a Llais Y Derwent

trwy **01773 827513** neu anfon ebost i [dysgwyr5@virginmedia.com](mailto:dysgwyr5@virginmedia.com)  
[www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com](http://www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com)



## Dipyn bach o fy hanes i

John Archer ydw i ac yn byw yn King's Lynn Norfolk. Mi ges i fy ngeni a magu yn Mansfield, Notts. Roedd fy nhad yn löwr fel sawl dyn arall yn yr ardal. Felly dw i wedi cael fy magu mewn lle, yn fwy na thebyg, fel yn y cymoedd de Cymru. Dim syndod felly bod un o fy ffrindiau cyntaf yn yr ysgol oedd Trefor Williams. Roedd ei mam a dad yn Gymry o'r de. Roedd Trefor yn arfer dysgu i mi sut i ddweud Llanfair PG ac i gyfrif yn Gymraeg. Felly fel bachgen ifanc oeddwn i'n gwybod am y ffaith fod yr iaith Cymraeg yn bodloni ac yn cael ei siarad yng Nghymru. Yn yr ysgol dysgais i dipyn o Ffrangeg ac Almaen ac ar ôl gadael yr ysgol ( Forest View County Secondary Modern) yn 15 oed, mi benderfynais i barhau hefo pynciau hyn mewn dosbarth nos yn Mansfield.

Pan oeddwn i'n 18 oed ymunais i'r fyddin yn y corf meddygol. Ar y pryd oeddwn i'n aelod o'r Venture Scouts ac ar ôl fy hyfforddiant milwrol mi es i hefo'r Scouts am wythnos i'r gwersyll haf yn yr Eryri. (Cwm y glo). Mi Gawson ni lawer o gyfle i glywed y Gymraeg yn cael ei siarad. Dw i'n cofio'r perchennog y wersyllfa yn gwahodd i ni bechgyn i gymryd rhan mewn diwrnod mabolgampau yn y pentre'. Dyna le ro'n i'n clywed Cymraeg yn siarad yn rhydd ac yn naturiol. Yr wythnos 'na wnes i benderfynu dysgu Cymraeg un dydd yn y dyfodol.

Daeth fy nghyfle pan ges i fy mostio i Lerpwl am ddwy flynedd pan o'n i'n gweini fel Staff Sergeant mewn uned TA yn y ddinas hon. Wnes i gyfarfod a rhai milwyr TA oedd yn byw yn Gymru ac yn siarad Cymraeg. Nes i brynu hen gopi Teach Yourself Welsh o'r siop John Lewis a hefo cymorth fy ffrindiau mi

ddechreuais i siarad dipyn o Gymraeg. Yn hwyrach mi ges i fy mostio i Lundain am be-dair blynedd. O'n i'n falch iawn i gael cyfle i weithio hefo filwries TA oedd yn dod o Bentre-felin ger Llanelli. Yn ystod y cyfnod hwn mi ges i lawer iawn o ymarfer iaith hefo hi.

Wedi ymddeol o'r fyddin yn 1995 wnes i barhau bob hyn a hyn hefo fy astudiaethau Gymraeg ond yn brin iawn ffeindies i amser i'w neud o oherwydd fy ngwaith mewn cwmni Americanaidd. Wnes i weithio trwy gyfrwng y Ffrangeg ac Eidaleg am saith mlynedd. O'n i'n ymwybodol o'r ffaith fod angen arnaf i neud ymdrech mawr i barhau hefo'r Gymraeg. Erbyn hyn dw i wedi ymuno a SSIW ar y we ac yn mwynhau eu gwersi nhw ac yn rhannu profiadau hefo dysgwyr eraill. Doedd hi ddim yn hir tan i mi i glywed am Fenter iaith Lloegr a'r gweithdy Cymraeg yn Derby. Wnes i ymweld ag un sesiwn dydd Sadwrn yno a wnes i gyfarfod a Jonathan. Mi ges i lawer o ysbrydoliaeth gan Jonathan a'i ffrindiau i sefydlu grŵp cymdeithasol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn Norfolk.

Mi ffurfiodd ein grŵp, Clwb Siarad Norfolk, yn Ionawr eleni ac rydyn ni'n cyfarfod am ddwy awr mewn tafarn y Bull yn East Dereham bob yn ail ddydd lau yn y mis. Mae unarddeg ohonom ni ac mae hanner o'r grŵp yn siaradwyr naturiol sydd wedi symud i Norfolk i weithio ac i fyw. Maen nhw yn dod o bob rhan o Gymru felly mae'n ddi-ddorol i glywed ei acennau gwahanol. Fel grŵp rydyn ni'n siarad yn Gymraeg y rhan mwa o amser wrth gwrs. Dw i'n hoffi trefnu gweithgareddau sgysiau syml fel dod a hen luniau o'ch plentyndod a phawb yn dyfalu pwy ydy pwy. Gemau bach fel 'celwydd' ble mae pawb yn sgwennu pedwar brawddegau amdano ei hunan ac un yn gelwydd. Rhaid pawb yn ceisio dyfalu beth ydy'r celwydd.

Dw i'n gobeithio tynnu mwy o aelodau trwy hysbysebu'r grŵp dros y cyfryngau lleol ond heb wneud hyd yn hyn. Rhaid i mi ddechrau hefo'r dasg yn fuan.

Mae'n amlwg bod grwpiau Cymraeg yn dal i ffurfio drwy Gymru ac yn Lloegr. Mae mwy o bobl yn dechrau dysgu Cymraeg nag o'r blaen a dw i'n rhannu'r weledigaeth hefo Jonathan am y posibilrwydd o ffurfio grŵp Cymraeg yn Lloegr ymhen awr o daith i bawb yn Lloegr.

Yn ddiweddar mi gymerais i ran mewn boot-

camp SSIW yn Sarn Mellteyrn (Llyn) ym mis Ebrill / Mai eleni. Roedd y profiad yn wych mewn ardal hardd a hollol Cymraeg. Roedd Deg ohonon ni yno yn gynnwys tri o'r UDA ac un o'r

Ffindir. Roedd y tywydd yn eithriadol o braf yr wythnos hon ac ymwelon ni wahanol leoedd diddorol bob dydd.

Uchel bwyntiau'r wythnos: Ymweliadau Ynys Enlli, Tre'r Ceiri hefo cyn-aelod y grŵp Pwnc Cymraeg Anhrefn, Ymweliad a'r Winllan ym Mhenygroes hefo ymddangosiad (a sgwrs) gan Nia Parry. Ac yn y blaen.

Wel dyma fy stori fach wedi gorffen. Mi fydda i'n ymweld â'r Eisteddfod mis Awst nesa. Gobeithio gweld rhai ohonoch chi yno.

**John Archer**

---

## **Geiriau o dafodiaeth y Cofis**

Ceiniog - Niwc, Dimai - Magan, Chwechceiniog - Sei, Swllt - Hog, Hanner Coron - Hanner Bwl, Punt - Screen, Tad - Hen go, Mam - Hen fodan, Plisman - Slop, Dianc - Miglo, Siarad - Patro, Cogio - Smalio, Cath - Giaman, Edrych - Stagio, Cerdded - Cerad, Clywed - Clwad, Lwc - Ffliwc, Gwael - Giami

Bwyd - Sgram, Bwyta - Sgramio, Wythnos - Wsnos, Malwen - Mawlan Sbectolau - Staggers, Edrych - Sbio, Pres - Macs, Colomen - Cloman, Amddifad - Aniddad

Ateb - Apad, Cuddio - Ciddiad, Celwyddau - Clwdda, Person - Co, Dynion - Cofis, Helynt - Conji, Cornel - Conol Gwirion - Crinc, Bron - Dest Merch - Fodan, Cefais - Geuso, Syniad - Eidia, Gweddol - Golew

Curo - Socio, Ergyd - Slog, Gwys - Slang, Rhoddais - Reuso, Curo - Pannu, Llygaid - Llgada, Gwnaeth - Neuso, Clewtian - Lwmpian, Eistedd - Ista, Eisiau - Isio, Wyneb - Gwymad, Cwningen - Gwnifan, Yr un fath - Fatha, Yma - Fama, Dynion y wlad - Cofi'lâd, Daeth - Deuso



## **Rhaglen CDCD 2013 – 2014**

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 21-9-13

Ysgol Undydd Cymraeg Derby  
Dydd Sadwrn 19-10-13

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 9-11-13

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 14-12-13

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 11-1-14

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 8-2-14

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 8-3-14

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 12-4-14

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 10-5-14

Gweithdy Cymraeg  
Dydd Sadwrn 7-6-14